

Mae eich geiriau'n cyfri!

Wrth siarad â phlentyn am fathemateg

Meddylwch eilwaith
cyn dweud 'Fedra i
ddim gwneud maths'



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Mae cefnogi'r plant sy'n rhan o'ch bywyd i gael y dechrau gorau posib wrth ddysgu mathemateg mor hawdd â chyfri **1, 2, 3**. Beth am fwynhau ychydig o weithgareddau gyda'ch gilydd a dysgu rhifau ar yr un pryd!

Awgrymiadau cyfri i blant 3 – 5 oed



- Mae caneuon a rhigymau yn ffordd hwylus i blant fod yn gyfforddus gyda rhifau.
Caneuon: Caneuon â rhifau


- Chwarae gêmâu sy'n cynnwys rhifau fel bingo, dîs a chardiau. Gall yr hen ffefrynnau fel Dominos neu Nadroedd ac Ysgolion helpu wrth rifo ymlaen ac yn ôl.

Gêmâu: Ydych chi am chwarae ychydig o gêmâu?



Awgrymiadau cyfri i blant 7 – 11 oed

- Mae'n bwysig siarad am yr hyn ddigwyddodd i chi yn ystod y dydd ac mae maths o'ch cwmpas ym mhob man! Mae 'na ddigon o bethau yn y cartref a'r tu allan i siarad amdany'n nhw.
- Cyfri yn y cartref – sawl peth sydd yn y lolfa sy'n siâp sgwâr neu'n driongl? Sawl ochr sydd i wahanol bethau? Faint o risiau sydd yn y tŷ? Cyfrwch beth bynnag welwch chi!
- Cyfri yn y gegin drwy ddilyn rysâit gyda'ch gilydd. Mae'n bwysig eich bod yn mesur yn gywir neu mi fydd hi'n drychineb yn y gegin!



Rhannwch eich awgrymiadau chi am fathemateg, adnoddau a phrofiadau:
www.facebook.com/whatyousaycounts



Ysbrydoliaeth i rieni - Mae rhifau o'n cwmpas ym mhob man. Beth bynnag yw eich barn am eich sgiliau maths chi eich hun, mae'n bwysig eich bod yn annog eich plentyn i weld yr hwyl sydd i'w gael gyda rhifau.



Pori Drwy Stori rhaglen ddwyieithog i blant oedran Derbyn sy'n llawn gweithgareddau mathemateg.



Oxford Owl gwefan am ddim sydd wedi ennill gwobr arbennig ynghyd â **250** o e-lyfrau hawdd eu gweld ar lechen a gweithgareddau i gefnogi plant – a'r cyfan **AM DDIM**.



BBC Bitesize nifer o weithgareddau i blant o bob oed a gallu. Awgrymiadau ar gyfer TGAU hefyd.



Mae eich geiriau'n cyfri, **cliciwch yma** i weld pa mor bwysig yw cael agwedd bositif at fathemateg.